Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Arolwg o hyfforddiant cymwysterau proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

CHWEFROR 2010

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **A yw'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd rhaglenni hyfforddi'n sicrhau bod addysgu, dysgu a lleoliadau arfer gwaith yn datblygu staff effeithiol?** | **10** |
| **Pa mor dda mae cyflogwyr Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a SAUau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r cwricwlwm a pharatoi gweithlu sydd newydd ei gymhwyso ar gyfer gwasanaeth ieuenctid sy'n newid?** | **12** |
| **Pa mor dda mae'r cwricwlwm yn paratoi myfyrwyr ar gyfer rôl gweithiwr ieuenctid proffesiynol yng Nghymru?** | **14** |
| **Pa mor hygyrch mae SAUau yn gwneud i gyrsiau cymwysterau gwaith ieuenctid fod?** | **17** |
| **Atodiad 1 Sail y dystiolaeth ar gyfer yr arolwg** | |
| **Atodiad 2 Cyrsiau presennol sy'n cael eu cydnabod gan y JNC a'u cynnal yng Nghymru** | |
| **Atodiad 3 Awdur yr adroddiad a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

1 O dan ddarpariaethau'r canllawiau statudol 'Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002), dylai pob awdurdod yng Nghymru "sicrhau, mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, bod yr awdurdod yn darparu ac/neu'n sicrhau gwasanaeth ieuenctid o ansawdd uchel"[1].

2 Yn 2005, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn arolygu hyfforddiant cychwynnol rhan amser i weithwyr ieuenctid yng Nghymru, sy'n arwain at gymhwyster cydnabyddedig ar gyfer gweithwyr ieuenctid ar lefel 3. Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad 'Arfarniad o ansawdd a safonau hyfforddiant cychwynnol ar gyfer gweithwyr ieuenctid rhan-amser yng Nghymru' yn 2006*.*

3 Yn 2006, ymestynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gwmpas adran 75 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. O ganlyniad, daeth y ddeddfwriaeth ag addysg a hyfforddiant gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol gan sefydliadau addysg uwch (SAUau) o fewn cylch gorchwyl Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Yn dilyn diwygio adran 75, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn gynnal arolwg o ansawdd ac ystod hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid ledled Cymru.

4 Yn 2006-2007 cynhaliodd Estyn arolwg desg, yn mapio ystod y cyrsiau sy'n cael eu darparu gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.

5 Yn 2007-2008, cynhaliodd Estyn arolwg o'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau ieuenctid, sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig i weithwyr cymorth ieuenctid. Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad 'Pa mor dda yw hyfforddiant gweithwyr cymorth ieuenctid yng Nghymru?' yn Ebrill 2009.

6 Yn ystod Chwefror a Mawrth 2010, cynhaliodd Estyn arolwg pellach, y tro hwn yn edrych ar yr hyfforddiant cymwysterau proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n cael ei ddarparu gan SAUau yng Nghymru. Ystyriodd yr arolwg anghenion a phrofiadau myfyrwyr sy'n ariannu eu hunain, a myfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan gyflogwyr gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.

[1] Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pob Ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru t9

## Cefndir

7 Mae’r pwyllgorau Safonau Addysg a Hyfforddiant (ETS) yng Nghymru, Lloegr ac Iwerddon[2] yn gweithredu proses ardystio proffesiynol ar gyfer cyrsiau diploma a gradd SAUau. Mae’r Cydgyngor Trafod Telerau ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymunedol (JNC) wedyn yn cydnabod pob cwrs cymwysterau ar gyfer gweithwyr ieuenctid. Dim ond y cyrsiau sy’n cael eu cydnabod gan y JNC sy’n rhoi statws wedi’i gymhwyso’n broffesiynol mewn gwaith ieuenctid a chymunedol. Ar hyn o bryd mae’r cymhwyster proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid wedi’i osod ar lefel diploma (lefel 5). Bydd hyn yn codi at lefel gradd anrhydedd (lefel 6) o Fedi 2010.

8 Mae’r JNC yn cynnwys cynrychiolwyr o gyflogwyr, staff ac undebau. Yn ogystal ag ardystio cymwysterau, mae’r JNC yn cytuno ar raddfeydd cyflog ac ar delerau ac amodau gwasanaeth eraill ar gyfer gweithwyr ieuenctid a chymunedol sy’n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol[3].

9 Mae trefniant dwyochrog rhwng pwyllgorau ETS yn golygu os bydd un ETS yn ardystio cwrs, mae’r gwledydd cartref eraill yn cydnabod yr un cwrs yn awtomatig fel cymhwyster proffesiynol. Ar hyn o bryd y prif lwybrau i waith ieuenctid wedi’i gymhwyso’n broffesiynol yw:

- diploma mewn Addysg Uwch;
- gradd sylfaenol[4];
- gradd anrhydedd;
- diploma ôl-radd (un flwyddyn amser llawn neu gyfwerth â rhan-amser); a
- gradd uwch sy’n ymgorffori’r cymhwyster proffesiynol.

10 Yr SAUau yng Nghymru sy’n cynnig y cymwysterau yw:

- Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam;
- Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin;
- Y Brifysgol Agored;
- Prifysgol Cymru, Casnewydd; ac
- Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd,

---

2 Mae Cyngor Ieuenctid Gogledd Iwerddon yn ymgymryd â dilysu cyrsiau’n broffesiynol yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Yn yr Alban, y cymhwyster isaf ar gyfer cael statws cymhwyso’n broffesiynol yw gradd. Mae Cyngor Safonau CLD yr Alban yn dilysu rhaglenni astudio sy’n arwain at statws proffesiynol.

3 Mae telerau ac amodau JNC yn berthnasol yn bennaf i’r sefydliadau gwirfoddol hynny sydd wedi derbyn grant gan lywodraeth leol neu lywodraeth ganolog neu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4 O Fedi 2010, caiff y lefel isaf ar gyfer cyrsiau cymhwyso’n broffesiynol ei chodi i radd anrhydedd.

11 Mae strategaeth gwasanaeth ieuenctid genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Pobl ifanc, gwaith ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid’ (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007), yn gosod ei nod ‘i holl bobl ifanc Cymru fod yn gallu elwa ar wasanaeth ieuenctid sy’n addas i’r diben ac sy’n gweithio’n agos gyda phartneriaid eraill i fodloni anghenion pobl ifanc’.

12 Mae’r strategaeth hon yn diffinio nifer o amcanion pwysig er mwyn gwella lefelau’r cymwysterau o fewn gweithlu’r gwasanaeth ieuenctid. Mae’r strategaeth yn rhoi’r dasg i’r sector addysg uwch, trefniadau hyfforddi a chynllunio’r gwasanaeth ieuenctid a Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio’n agosach er mwyn:

- llunio a gweithredu strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu’r gweithlu sy’n sicrhau hyfforddiant effeithiol a chymorth a datblygiad parhaus ar gyfer y rhai sy’n gweithio yn y gwasanaeth ieuenctid;
- cytuno ar gamau gweithredu ar y cyd er mwyn sicrhau bod isafswm o 90% o’r rhai sy’n cael eu cyflogi’n amser llawn wedi’u cymhwyso i gymhwyster lefel broffesiynol JNC;
- manteisio ar gyfleoedd a gafodd eu cynnig gan adroddiad Furlong[5] i ehangu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer hyfforddi gweithwyr ieuenctid ar bob lefel, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- arfarnu rhaglenni cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni’r anghenion a’r dyheadau ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru ac yn cynnig yr hyn sydd fwyaf addas ar gyfer hyfforddiant sy’n cael ei gynnal yn lleol er mwyn sicrhau dilyniant i fyfyrwyr; a
- gweithio mewn partneriaeth gyda’r ETS er mwyn sicrhau bod pob rhaglen yn ateb gofynion ardystio proffesiynol.

13 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n caniatáu swm o arian i bob gwasanaeth ieuenctid er mwyn ariannu hyfforddiant i weithwyr ieuenctid. Mae defnydd y grant yn cael ei reoleiddio gan delerau ac amodau clir ac mae’n cael ei gyfyngu i fodloni rhestr o flaenoriaethau wedi’u diffinio. Mae’r blaenoriaethau hyn yn cynnwys cynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid sydd wedi’u cymhwyso’n broffesiynol sy’n cael eu cyflogi gan wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mae’n ofynnol i bob gwasanaeth ieuenctid ateb i Lywodraeth y Cynulliad o ran ei wariant, ac arfarnu effeithiolrwydd ei raglen hyfforddi.

14 Mae Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK)[6] wedi cytuno ar set o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGCau) ar gyfer gwaith ieuenctid. Mae’r SGCau hyn yn diffinio’r medrau, y wybodaeth a’r galluoedd sydd ar weithwyr ieuenctid eu hangen, ar draws ystod gyfan y lefelau cymwysterau a gytunwyd gan y JNC.

---

[5] J. Furlong, H. Hagger, a C. Butcher, Adolygiad o Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (LlCC, 2006)

[6] LLUK yw’r Cyngor Sgiliau Sector sydd â chyfrifoldeb ar gyfer gwaith ieuenctid fel rhan o’i gylch gorchwyl Dysgu a Datblygu Cymunedol.

15 Yn ddiweddar mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) wedi datblygu datganiadau meincnodau pwnc ar gyfer cyrsiau gwaith ieuenctid a chymunedol ac mae'n ofynnol i'r SAUau seilio cynnwys eu rhaglenni gradd arnynt.

16 Ar draws y SAUau yng Nghymru, mae dros 600 sy'n astudio ar gyrsiau ieuenctid a chymunedol. Yn bennaf, mae proffil demograffig y boblogaeth myfyrwyr hon (y rhai sy'n ymuno'n uniongyrchol a'r rhai sy'n cael eu hariannu gan gyflogwyr) yn groenwyn, ac mae'r rhan fwyaf yn fenywaidd. Dim ond ychydig o fyfyrwyr croenddu ac Asiaidd sydd.

17 Yn ystod y flwyddyn academaidd 2009-2010, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ariannu mwy na 200 o weithwyr ieuenctid i ymgymryd â'r lefel hon o hyfforddiant. Mae pob gwasanaeth ieuenctid yn gwneud hyn ac mae niferoedd y staff o wasanaethau ieuenctid unigol yn amrywio rhwng dau a 21.

18 Mae'r mwyafrif o fyfyrwyr sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth ieuenctid awdurdod lleol yng Nghymru ac yn cael eu hariannu i astudio ar gyfer cwrs cymhwyster proffesiynol, yn mynychu SAUau yng Nghymru. Eithriad i hyn yw carfan fach o naw myfyriwr o ddau gyflogwr gwasanaeth ieuenctid sy'n astudio o bell gyda Choleg YMCA George Williams yn Llundain.

19 Fel rhan o'r cyrsiau hyn, mae'n ofynnol i fyfyrwyr ymgymryd â dau weithgaredd lleoliad gwaith[7] wedi'u goruchwylio'n broffesiynol. Mae asesu perfformiad myfyrwyr ar leoliadau gwaith yn cyfrif am hyd at 50% o farciau'r cwrs[8]. Ledled yr awdurdodau lleol, mae gan tua 116 o staff gwaith ieuenctid awdurdodau lleol gyfrifoldebau ar gyfer goruchwylio lleoliadau gwaith a mentora dros 200 o fyfyrwyr. Mae gan 97% o'r rhain gymhwyster JNC.

[7] Bydd hyn yn codi i dri yn sgil cyflwyno'r Radd Anrhydedd o Fedi 2010
[8] Mae'r marciau gwirioneddol sy'n cael eu dyfarnu ar gyfer lleoliadau gwaith yn amrywio o gwrs i gwrs.

## Prif ganfyddiadau

**A yw'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd rhaglenni hyfforddi'n sicrhau bod addysgu, dysgu a lleoliadau arfer gwaith yn datblygu staff effeithiol?**

20 Mae'r rhan fwyaf o uwch reolwyr mewn SAUau, yn enwedig ar lefel pennaeth ysgol neu gyfadran, yn deall yr heriau sy'n wynebu cyrsiau cymwysterau gwaith ieuenctid proffesiynol. Fodd bynnag, er bod uwch reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng rhaglenni a chyrsiau, nid ydynt wedi datblygu'n effeithiol rhannu arfer dda o ran cynnwys cyrsiau, a rheoli lleoliadau gwaith rhwng myfyrwyr ieuenctid a chymunedol, myfyrwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac athrawon sy'n derbyn hyfforddiant.

21 Caiff agweddau academaidd cyrsiau ieuenctid a chymunedol eu monitro'n effeithiol trwy systemau sicrhau ansawdd priodol. Cynhyrchodd pob SAU hunanarfarniadau effeithiol er mwyn ymgymryd â'r arolwg, ac yn gyffredinol fe wnaeth eu casgliadau gyd-fynd yn dda â chanfyddiadau'r arolwg.

22 Mae sicrhau ansawdd lleoliadau gwaith yn llai effeithiol. Nid oes gan yr SAUau na'r gwasanaethau ieuenctid sy'n darparu'r lleoliad ddigon o berchnogaeth dros yr agwedd hon ar y cwrs i ymrwymo'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn ymgymryd â sicrhau ansawdd yn systematig. At hyn, nid yw gwasanaethau iechyd yn gwybod faint mae'n costio iddynt ddarparu lleoliadau gwaith. Yn ogystal, nid ydynt yn gwybod a yw'r ddarpariaeth ar gyfer lleoliadau gwaith o fudd o ran amser, cyfleusterau a darpariaeth gwasanaeth eu staff i bobl ifanc, neu a yw'n defnyddio gormod ohonynt.

23 Nid yw SAUau yn gwneud digon i sicrhau bod goruchwylwyr lleoliadau gwaith yn gwybod yr hyn y dylent fod yn ei wneud neu fod ganddynt y medrau sydd eu hangen er mwyn gwneud cyfraniad effeithiol i ddysgu'r myfyrwyr.

**Pa mor dda mae cyflogwyr Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru a SAUau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r cwricwlwm a pharatoi gweithlu sydd newydd ei gymhwyso ar gyfer gwasanaeth ieuenctid sy'n newid?**

24 Mae strategaeth gwasanaeth ieuenctid Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu sail strategol dda iawn gydag amcanion clir ar gyfer datblygu hyfforddiant gweithwyr ieuenctid ar y cyd. Fodd bynnag, hyd yn hyn, ychydig yn unig mae'r rhanddeiliaid allweddol wedi'i wneud i ymdrin â'r amcanion hyn. Mae diffyg arweinyddiaeth a gweledigaeth a rennir i yrru cydweithio ymlaen.

25 Nifer fach o gyfleoedd ffurfiol parhaus a rheolaidd sydd i reolwyr gwasanaethau ieuenctid drafod datblygiad cyrsiau cymwysterau ieuenctid a chymunedol cyfredol gyda thimau rhaglenni SAUau. Fodd bynnag, mae SAUau wedi ymgynghori'n dda gyda gwasanaethau ieuenctid o ran cynllunio a datblygu eu cyrsiau BA newydd yn barod ar gyfer y meini prawf diwygiedig ar gyfer cymhwyster proffesiynol i radd anrhydedd o Fedi 2010.

**Pa mor dda mae'r cwricwlwm yn paratoi myfyrwyr ar gyfer rôl gweithiwr ieuenctid proffesiynol yng Nghymru?**

26 Mae ansawdd dogfennau cyrsiau ar draws y sector SAU ac o fewn y rhan fwyaf o gyrsiau'n amrywio'n ormodol. Mae'r enghreifftiau gorau'n glir ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion mae dogfennau pwysig yn ddwys, yn defnyddio iaith aneglur ac yn anodd eu dehongli.

27 Mae'r cwricwlwm academaidd craidd ar gyfer hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol yn gynhwysfawr, ac yn cwmpasu'n llawn y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau sy'n ofynnol i weithiwr ieuenctid proffesiynol o ran darpariaeth gwasanaethau ieuenctid ac mewn asiantaethau eraill sy'n cyflogi gweithwyr ieuenctid.

28 Mae lleoliadau gwaith yn cyfrif am hyd at 50% o farciau'r cwrs ac maent yn rhan bwysig o'r cwricwlwm ar gyfer myfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw cynllunwyr cwricwlwm yn gwneud digon o gysylltiadau rhwng deall modelau damcaniaethol mewn astudiaethau academaidd a datblygu medrau ymarferol mewn lleoliadau gwaith lle mae'r modelau hynny'n gymwys.

29 Mae gan lawer o fyfyrwyr ymwybyddiaeth sylfaenol o feini prawf asesu sy'n perthyn i agweddau academaidd eu gwaith cwrs, ond maent yn llai sicr ynghylch yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn llwyddo'n dda yn ystod eu lleoliadau. Yn gyffredinol mae adborth i fyfyrwyr ar eu haseiniadau'n glir, yn ddiagnostig ac yn adeiladol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae'r adborth yn hwyr, nid yw'n cynnwys digon o farnau ffurfiannol, ac nid yw'n gwneud digon i helpu'r myfyriwr baratoi ar gyfer y modiwl neu'r cam hyfforddi nesaf.

30 Mae gan SAUau ddealltwriaeth dda o bolisi a chyd-destun diwylliannol Cymru. Mae'r agweddau hyn yn cael eu trin yn briodol mewn cwricwla cyrsiau.

31 Nid yw'r trefniadau SAUau i ddenu a chefnogi myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol. Nid oes digon o waith wedi cael ei wneud gan SAUau a rhanddeiliaid eraill i fesur lefel y diddordeb ymhlith myfyrwyr presennol neu ddarpar fyfyrwyr mewn cyrsiau neu fodiwlau cyfrwng Cymraeg. Ar y rhan fwyaf o gyrsiau, nid yw SAUau yn cynnig digon o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio'r cwrs cyfan neu ran ohono drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd mae'r gofyniad i fyfyrwyr ddewis yr ychydig o gyfleoedd ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn gweithio fel rhwystr ac o ganlyniad mae ychydig iawn o fyfyrwyr yn gwneud hynny.

**Pa mor hygyrch mae SAUau yn gwneud i gyrsiau cymwysterau gwaith ieuenctid fod?**

32 Mae ystod eang o gyrsiau cymwysterau ar gael yng Nghymru ar lefelau diploma, gradd a gradd Meistr. Mae gofynion mynediad i'r cyrsiau hyn yn debyg yn fras, ond mae eu cymhwyso'n amrywio'n eang, yn enwedig y gofyniad am brofiad blaenorol o waith ieuenctid.

33 Mae pob SAU sy'n cyflwyno cyrsiau ieuenctid a chymunedol yn darparu gwasanaethau cymorth dysgu cadarn a chynhwysfawr i fyfyrwyr.

34 Mae lleiafrif o fyfyrwyr sydd wedi'u hariannu gan gyflogwyr gwasanaethau ieuenctid:

- nad ydynt yn gwybod o un flwyddyn i'r llall a oes digon o arian iddynt gwblhau'r cwrs; ac
- nid ydynt yn cael digon o amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer astudio neu i ymgymryd â'u lleoliad arall.

35 Mae pob SAU yn cynnig y cyfle i drosglwyddo credydau a gafodd eu cronni mewn sefydliadau eraill cyhyd â'u bod cyfwerth â blwyddyn gyfan o astudio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw gweithwyr ieuenctid yn y maes yn deall sut mae trosglwyddo credydau'n gweithio.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 Gymryd yr awenau'n strategol o ran gweithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn sicrhau bod partneriaid yn ymgymryd â'r holl gyfrifoldeb dros gyfrannu at weithredu'r strategaeth genedlaethol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yn llwyddiannus.

**Dylai sefydliadau addysg uwch:**

A2 Wneud trefniadau ar gyfer trafod a rhannu arfer dda rhwng cyrsiau ieuenctid a chymunedol, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a hyfforddi athrawon, er mwyn gwella trefniadau cyrsiau ar gyfer myfyrwyr ieuenctid a chymunedol;

A3 Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda holl gyflogwyr gweithwyr ieuenctid cymwysedig, i ymgynghori ar gynllun, cynnwys a chyflwyno cyrsiau ieuenctid a chymunedol;

A4 Datblygu cytundebau effeithiol gyda darparwyr lleoliadau gwaith sy'n:

- diffinio cyfrifoldeb pob parti'n glir;
- gwella sicrhau ansawdd lleoliadau gwaith; a
- sicrhau digon o leoliadau i fodloni anghenion eu carfannau o fyfyrwyr;

A5 Sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau mewn cyd-destunau sy'n integreiddio arfer â damcaniaeth;

A6 Gwella eglurder arweiniad i oruchwylwyr lleoliadau gwaith am eu rôl addysgol ar gyrsiau, fel eu bod yn gwybod yn glir eu cyfrifoldebau dros ddatblygu medrau proffesiynol, gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion;

A7 Gwella mynediad at hyfforddi ar gyfer goruchwylwyr lleoliadau gwaith, i sicrhau y gallant ymgymryd â'u cyfrifoldebau hyfforddi a'u rolau asesu'n effeithiol;

A8 Mewn cydweithrediad â gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, gwneud ymchwil ar:

- effaith lleoliadau gwaith ar ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid o ran cost, gwerth am arian a chodi safonau; a'r
- galw am ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ar gyrsiau ieuenctid a chymunedol; a

A9 Sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn adborth clir, adeiladol ac amserol ar eu haseiniadau a'u cynnydd yn ystod lleoliadau.

**Dylai consortia rhanbarthol o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol:**

A10 Fynychu cyfarfodydd datblygu rhaglenni SAUau er mwyn cynrychioli buddiannau gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol.

**Dylai gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol:**

A11 Mewn cydweithrediad â'r SAUau, cyfrannu at yr ymchwil i:

- effaith lleoliadau gwaith ar ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid o ran cost, gwerth am arian a chodi safonau darpariaeth;
- y galw am gyrsiau cymwysterau ieuenctid a chymunedol cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog;

A12 Gwella sicrhau ansawdd lleoliadau gwaith a gaiff eu darparu gan eu staff, er mwyn sicrhau bod pob goruchwyliwr sy'n ymgymryd â rolau mentora ac asesu yn gymwys yn briodol, ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau; a

A13 Sicrhau bod trefniadau i staff ymgymryd â chyrsiau cymhwyso'n broffesiynol yn deg gan ystyried y cydbwysedd rhwng gwaith ac astudio sy'n ofynnol er mwyn ennill y cymhwyster, a gwneud ymrwymiadau i ariannu cyrsiau'n hollol dryloyw.

## A yw'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd rhaglenni hyfforddi'n sicrhau bod addysgu, dysgu a lleoliadau arfer gwaith yn datblygu staff effeithiol?

36 Mae'r rhan fwyaf o uwch reolwyr mewn SAUau yn deall pwysigrwydd a pherthnasedd cymwysterau gwaith ieuenctid a chymunedol. Mae pob uwch reolwr ar lefel pennaeth ysgol neu bennaeth cyfadran yn dangos dealltwriaeth dda o'r materion sy'n wynebu'r cyrsiau ieuenctid a chymunedol y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r materion hyn yn cynnwys y cynnydd o ran niferoedd y myfyrwyr iau a llai profiadol sydd eisiau ymgymryd â chyrsiau gwaith ieuenctid a chymunedol, a'r anawsterau o ran sicrhau lleoliadau gwaith o ansawdd uchel ar gyfer myfyrwyr.

37 Mae gan uwch reolwyr resymeg glir ar gyfer lleoli'r cyrsiau hyn mewn cyfadran neu ysgol benodol. Maent yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ar y cyd rhwng rhaglenni a chyrsiau. Fodd bynnag, nid yw rhannu arfer dda rhwng myfyrwyr ieuenctid a chymunedol, myfyrwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac athrawon sy'n derbyn hyfforddiant, yn benodol o ran pwyslais a rheolaeth ddysgu trwy leoliadau gwaith wedi'u datblygu'n dda.

38 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae adroddiadau arholwyr allanol yn gadarnhaol iawn am y cyrsiau ieuenctid a chymunedol. Fodd bynnag, mae llawer o'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio'n ormodol ar ansawdd gwaith ysgrifenedig y myfyrwyr, ac nid ydynt yn ystyried ansawdd agweddau pwysig eraill ar y cwrs yn ddigonol. Nid ydynt yn siarad yn ddigon aml â'r myfyrwyr er mwyn gwybod eu barnau neu'n craffu ar ran lleoliad gwaith y cwrs ac nid ydynt yn mynd i'r afael â materion fel anghenion dwyieithog myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Mewn ychydig o achosion, nid yw adroddiadau arholwyr allanol yn ddigon arfarnol.

39 Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid addysg uwch yn cynnal arolwg o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol am eu cyrsiau yn rheolaidd, naill ai ar ddiwedd unedau cwrs penodol neu ar ddiwedd y flwyddyn. Mewn llawer o achosion, maent yn gwrando'n dda ar fyfyrwyr ac yn addasu materion a gafodd eu nodi'n gyffredin yn brydlon er mwyn bodloni anghenion y myfyrwyr.

40 Caiff agweddau academaidd cyrsiau ieuenctid a chymunedol eu sicrhau'n effeithiol o ran ansawdd drwy'r systemau sicrhau ansawdd corfforaethol priodol. Fodd bynnag, mae sicrhau ansawdd lleoliadau gwaith yn llai effeithiol. Er bod llawlyfr yn cael ei gyhoeddi fel arfer ar gyfer lleoliadau gwaith, nid oes gan yr SAUau na'r asiantaethau sy'n darparu lleoliadau gwaith gytundebau ysgrifenedig ar waith sy'n ddigon clir i sicrhau bod pob partner yn deall ac yn derbyn ei rôl briodol yn addysg a hyfforddiant y myfyriwr. O ganlyniad, nid yw unrhyw un o'r partneriaid yn talu digon o sylw i ansawdd y lleoliad gwaith neu i ansawdd y cymorth dysgu na chynnwys y dysgu hwnnw.

41 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae SAUau ond yn sicrhau ansawdd lleoliadau gwaith drwy adolygu dogfennau a gwirio gweithdrefnau. Nid yw tiwtoriaid yn arsylwi ac yn monitro ansawdd mewnbwn y goruchwylwyr neu'r rheolwyr llinell yn uniongyrchol yn ddigon aml. O ganlyniad, nid yw tiwtoriaid yn darparu cyfarwyddyd digonol i

oruchwylwyr lleoliadau gwaith a rheolwyr llinell o ran sut i wella eu hadborth ffurfiannol i'r myfyrwyr er mwyn datblygu eu medrau a'u helpu i gysylltu damcaniaeth â'r wybodaeth greiddiol.

42 O'u rhan nhw, nid yw gwasanaethau ieuenctid yn gwneud digon i sicrhau ansawdd eu staff, sy'n cyflwyno lleoliadau gwaith, mentora myfyrwyr ac ymgymryd ag asesiadau o waith myfyrwyr. Yn ogystal, nid yw gwasanaethau ieuenctid yn gwneud digon i arfarnu'r effaith ar y gwasanaethau maent yn eu darparu ar gyfer pobl ifanc. Nid ydynt yn gwybod cost darparu lleoliadau gwaith, na'u heffaith ar ddarpariaeth na chynhwysedd gwasanaeth drwy ryddhau amser staff ar gyfer goruchwylio a mentora, ac felly gwerth am arian yr ymrwymiad hwn. Ni chaiff rheolwyr gwasanaethau ieuenctid eu dwyn i gyfrif yn effeithiol am yr agwedd hon ar eu gwaith gan eu rheolwyr llinell yn yr awdurdod lleol.

43 Mewn llawer o achosion, mae ansawdd yr adroddiadau adolygol sy'n cael eu hysgrifennu gan y goruchwylwyr neu'r rheolwyr llinell yn wael. Yn rhy aml, nid ydynt yn darparu tystiolaeth dda ar sut mae myfyrwyr yn cyrraedd y safonau ar gyfer gwaith ieuenctid. Yn aml mae hyn oherwydd cafodd goruchwylwyr y lleoliadau gwaith ond ychydig o hyfforddiant penodol neu ddim hyfforddiant penodol o gwbl ar gyfer eu rôl. Yn ogystal â hyn, yn aml mae cynllun ffurflenni adrodd yn wael. Mae hyn yn golygu na all goruchwylwyr a rheolwyr llinell fanteisio ar enghreifftiau da o adroddiadau adolygol y gallant gyfeirio atynt.

44 Nid yw llawer o oruchwylwyr yn gwybod sut mae'r lleoliad gwaith yn alinio gyda'r cwrs prifysgol sy'n cael ei addysgu, neu'n deall sut mae eu hadroddiadau'n cyfrannu at y cymhwyster yn gyffredinol a'i asesiad. Nid ydynt yn sicr ynghylch sut i wahanu goruchwyliaeth rheolaeth llinell oddi wrth oruchwyliaeth lleoliad gwaith neu sut i ymgymryd â'u rôl mentora a'r asesiad ar ddiwedd y lleoliad.

## Pa mor dda mae cyflogwyr Prif Swyddogion Ieuenctid a SAUau Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r cwricwlwm a pharatoi gweithlu sydd newydd gymhwyso ar gyfer gwasanaeth ieuenctid sy'n newid?

45 Mae strategaeth gwasanaeth ieuenctid [9] Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu sail strategol dda iawn ar gyfer datblygu hyfforddiant i weithwyr ieuenctid a chymunedol ar y cyd. Fodd bynnag, er gwaethaf y targedau clir a gafodd eu gosod yn y strategaeth, ychydig iawn y mae'r rhanddeiliaid allweddol wedi ei wneud hyd yn hyn i ymdrin â'r rhain.

46 Mae nifer o gymunedau o ddiddordeb yn cwrdd yn rheolaidd ledled Cymru i drafod hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Asiantaethau Hyfforddi[10] (TAG) SAUau Cymru, Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS), Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid (PYO)[11], Grŵp strategol ar Ddatblygu'r Gweithlu, a gaiff ei gydlynu gan Ddysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK), a'r Grŵp Rheolwyr Hyfforddi i ddatblygu strategaethau datblygu'r gweithlu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw bwynt arwain sy'n cael ei gydnabod yn gyffredinol ar gyfer y maes, ac o ganlyniad, nid oes unrhyw weledigaeth sy'n cael ei rhannu ar gyfer cydweithio rhwng rhanddeiliaid, dim ymagwedd genedlaethol gyffredinol at hyfforddi gweithwyr ieuenctid, ac ychydig o ymchwil barhaus yn unig sydd i anghenion y maes neu i raddau'r galw am gyrsiau Cymraeg.

47 Er bod y rhan fwyaf o uwch reolwyr gwasanaethau ieuenctid yn cydnabod yr angen i fyfyrwyr gael lleoliadau o ansawdd da, nid oes unrhyw gynllunio cyffredinol gan y SAUau neu'r awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o leoliadau ar gael. Mae gan lawer o awdurdodau lleol farn rhy gul am leoliadau gwaith ieuenctid ac maent ond yn darparu ar gyfer y myfyrwyr maent yn eu cyflogi. Mae hyn yn golygu bod gan fyfyrwyr sydd heb eu cyflogi lai o gyfleoedd i ennill lleoliadau awdurdodau lleol.

48 Nid oes digon o gyfleoedd ffurfiol rheolaidd i reolwyr gwasanaethau ieuenctid drafod datblygiad parhaus cyrsiau ieuenctid a chymunedol gyda thimau rhaglenni SAU. O ganlyniad, mae gormod o anghytuno rhwng rhanddeiliaid o ran natur a chanolbwynt craidd gwaith ieuenctid, y medrau pwysig ar gyfer y gweithle, a'r galluoedd rheoli a'r medrau meddwl sydd ar weithwyr ieuenctid eu hangen er mwyn gwneud eu swydd yn effeithiol, ac ennill dyrchafiad drwy gydol eu gyrfa. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae pob tîm rhaglenni SAU wedi ymgynghori'n eang gyda'r maes wrth

---

[9] 'Pobl ifanc, gwaith ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid, fel y cafodd ei grybwyll uchod
[10] Mae Grŵp Asiantaethau Hyfforddi Cymru ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Chymunedol yn rhwydwaith ar gyfer yr holl SAUau sy'n darparu cyrsiau hyfforddi gwaith ieuenctid a chymunedol wedi'i ardystio yng Nghymru. Mae TAG Cymru'n rhan o'r UKTAG, sy'n cynnwys aelodau o bob cwrs ieuenctid a chymunedol sydd wedi'i ardystio ledled y DU.
11 Mae'r Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid (GPSY) yn cynnwys swyddogion awdurdodau lleol ac mae ganddo rôl allweddol o ran cynghori ar ddatblyiad strategol a darpariaeth gwasanaethau ieuenctid ac amcanion eraill sy'n gysylltiedig ar ran awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r grŵp proffesiynol hwn yn is-grŵp o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC). Mae CCAC yn grŵp proffesiynol o swyddogion awdurdodau lleol sy'n atebol ar gyfer swyddogaethau addysg statudol ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

iddynt baratoi eu cyrsiau anrhydedd BA newydd, yn barod am y meini prawf diwygiedig ar gyfer cymwysterau proffesiynol o Fedi 2010.

49 Mewn ychydig o achosion mae cydweithio da rhwng yr SAUau a gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol cyfagos. Mae'r cydweithio hyn ar ei fwyaf effeithiol lle mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi swyddog hyfforddi gwasanaethau ieuenctid, gyda digon o amser ar gael i gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu ei strategaeth ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, mewn llawer o wasanaethau ieuenctid, nid oes digon o arian i gyflogi swyddog hyfforddi. O ganlyniad, mae'r rôl naill ai wedi diflannu neu wedi cael ei chynnwys mewn llawer o gyfrifoldebau rheoli eraill.

## Pa mor dda mae'r cwricwlwm yn paratoi myfyrwyr ar gyfer rôl gweithiwr ieuenctid proffesiynol yng Nghymru?

50 Mae'r cwricwlwm academaidd craidd ar gyfer gwaith ieuenctid a chymunedol yn addas i'r diben. Mae'r cwricwlwm sy'n cael ei addysgu yn gynhwysfawr ac yn cwmpasu'n dda yr agweddau damcaniaethol y tu ôl i'r medrau a'r wybodaeth sydd yn ofynnol i'r gweithiwr ieuenctid proffesiynol mewn darpariaeth gwasanaethau ieuenctid ac mewn asiantaethau eraill, sy'n cyflogi gweithwyr ieuenctid. Mae'r cwricwlwm yn cysylltu'n dda â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol trwy gynllun cyffredinol yr amrywiaeth o raglenni, y modiwlau neu'r cyrsiau maent yn eu cynnwys, sesiynau unigol ac asesiadau.

51 Mae'r cyrsiau'n ymgysylltu'n dda â myfyrwyr, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn siarad yn ffafriol am y cyrsiau maent yn eu dilyn, ac maent yn fodlon iawn ar y ffordd y mae'r cyrsiau'n eu paratoi ar gyfer rôl gweithiwr ieuenctid a chymunedol proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gweld eu hastudiaethau academaidd yn ysgogol ac maent yn gwerthfawrogi'r her o gysylltu damcaniaeth ac arfer, a'r cyfleoedd ar gyfer myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith maes yn ystod goruchwyliaeth, tiwtorialau a thasgau asesu.

52 Mae mynediad myfyrwyr at ddeunyddiau ymchwil yn gwella. Mae casgliad cynyddol o ddogfennau, deddfwriaeth allweddol, adroddiadau blynyddol a briffiadau ar gael i fyfyrwyr. Mae'r adnoddau hyn yn helpu i ymestyn dealltwriaeth myfyrwyr o faterion y cwricwlwm. Mae cydweithio rhwng Coleg Prifysgol y Drindod a'r YMCA wedi arwain at wefan ddwyieithog newydd, sef www.gwaithieuenctidcymru.co.uk . Nod y safle yw darparu ystod o wybodaeth i ymarferwyr, tiwtoriaid, myfyrwyr a rheolwyr gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru, a fydd yn helpu i ddatblygu meddwl ac arfer.

53 Mae lleoliadau gwaith yn cyfrif am hyd at 50% o farciau'r cwrs ac maent yn rhan bwysig o'r cwricwlwm i fyfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw cynllunwyr y cwricwlwm, tiwtoriaid a goruchwylwyr y gweithle yn gwneud digon o gysylltiadau rhwng dealltwriaeth o fodelau damcaniaethol sy'n cael eu hennill yn ystod astudio academaidd a datblygu medrau ymarferol mewn lleoliadau gwaith lle mae'r modelau hynny'n gymwys. O ganlyniad, nid yw dysgu arfer gwaith yn cael ei weld yn glir fel rhan sylfaenol o gynllun y cwricwlwm cyffredinol. Mae lleiafrif o fyfyrwyr, cyflogwyr gwasanaethau ieuenctid a goruchwylwyr lleoliadau gwaith yn cwyno bod cyrsiau'n rhy academaidd, nid ydynt yn cynnwys digon o elfennau ymarferol sy'n seiliedig ar fedrau, ac nid ydynt yn gwneud digon i ddatblygu arferion proffesiynol fel dibynadwyedd a phrydlondeb.

54 Mae gan bob SAU lawlyfrau sy'n ymwneud â lleoliadau gwaith, a chronfa ddata o asiantaethau sy'n barod i gynnig y rhain. Fodd bynnag, efallai bydd myfyrwyr nad ydynt yn byw yn lleol neu nad ydynt wedi'u cyflogi gan y gwasanaeth ieuenctid yn ei chael yn anodd dod o hyd i leoliad addas. O bryd i'w gilydd mae hyn yn golygu nad yw myfyriwr yn gweithio mewn ail leoliad, sy'n bodloni ei anghenion datblygiadol orau. Nid yw SAUau yn monitro'r broses hon yn ddigon gofalus.

55 Mae rhai cyflogwyr yn gweld y dewis amgen o leoliad yn her. Maent yn anfodlon rhyddhau eu staff i weithio mewn sefydliadau eraill, a hefyd yn anfodlon cymryd myfyrwyr ar leoliadau o sefydliadau eraill. Mae hyn yn achosi anawsterau i fyfyrwyr,

cyflogwyr a SAUau o ran ateb gofyniad cyfredol ETS am leiafswm o ddewis amgen o 180 awr i bob myfyriwr erbyn diwedd Lefel 5.

56 Mae'r broses o adolygu ac ail-ddilysu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn barod ar gyfer y newid i broffesiwn lefel gradd anrhydedd ar gyfer myfyrwyr sy'n ymrestru o Fedi 2010 wedi cael effaith gadarnhaol ar SAUau, wrth iddynt ailfodelu eu rhaglenni i gymryd y newid hwn i ystyriaeth. Mae pob SAU eisoes yn cynnig cyrsiau lefel gradd uwchben y meincnod lefel 5 cyfredol ar gyfer cymhwyso. Mae'r cyrsiau gradd hyn yn helpu datblygiad y myfyrwyr fel gweithwyr proffesiynol. Mae myfyrwyr Lefel 6 (gradd) yn dangos mwy o barodrwydd am her gwaith fel pobl broffesiynol na myfyrwyr diploma lefel 5.

57 Mae ansawdd dogfennaeth cyrsiau yn amrywio. Mae'r enghreifftiau gorau'n glir ac yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys y disgwyliadau gofynnol o ran myfyrwyr, tiwtoriaid a goruchwylwyr, briffiadau aseiniadau, meini prawf asesu, trefniadau adborth a rhestrau darllen. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae dogfennau'n ddwys, yn defnyddio iaith aneglur ac yn anodd i fyfyrwyr, tiwtoriaid a goruchwylwyr yn y gweithle eu dehongli. Mae diffyg arweiniad clir yn y dogfennau hyn o ran y gweithdrefnau sy'n ymdrin yn effeithiol â thanberfformiad y myfyrwyr neu'r goruchwyliwr yn y gweithle.

58 Yn gyffredinol, mae ystod dda o dasgau asesu sy'n herio myfyrwyr i fyfyrio'n feirniadol ar eu profiadau ar leoliadau ac i ymgysylltu â safbwyntiau damcaniaethol gwahanol. Mae gan lawer o fyfyrwyr ymwybyddiaeth sylfaenol o feini prawf asesu sy'n gysylltiedig â gwaith cwrs, ond maent yn llai sicr am yr hyn mae arnynt angen ei wneud er mwyn llwyddo'n dda yn ystod eu lleoliadau.

59 Yn gyffredinol, mae adborth i fyfyrwyr ar eu haseiniadau yn glir, yn ddiagnostig ac yn adeiladol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae canllawiau am feini prawf marcio, amser cwblhau ar gyfer aseiniadau ac adborth i fyfyrwyr yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion nid yw adborth i fyfyrwyr ar ansawdd a phriodoldeb cynnwys eu haseiniadau yn ddigon da. Ar ychydig o gyrsiau, nid yw myfyrwyr yn cael adborth mewn digon o amser cyn eu haseiniad nesaf er mwyn deall eu cryfderau a'u gwendidau a sut i wella eu gwaith. Ni chaiff myfyrwyr medrus iawn eu herio'n ddigonol bob tro i ddatblygu eu meddwl a'u dadansoddi beirniadol ymhellach. Mewn ychydig o achosion, mae myfyrwyr yn derbyn marciau yn unig heb unrhyw sylwadau nac arweiniad ysgrifenedig ar sut i wella.

60 Mae gan SAUau ddealltwriaeth dda o bolisïau ieuenctid Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyd-destun diwylliannol Cymru. Caiff y rhain eu trin yn briodol mewn cwricwla Ieuenctid a Chymunedol SAUau, a chânt eu cwmpasu'n dda mewn modiwlau sy'n ymdrin â pholisi ieuenctid ehangach y DU ac Ewrop.

61 Nid yw trefniadau'r SAUau ar gyfer denu a chefnogi myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol. Ar y rhan fwyaf o gyrsiau nid yw'r SAUau yn cynnig digon o gyfleoedd i ddilyn elfennau o'u cyrsiau, fel sesiynau a seminarau a gaiff eu haddysgu, cwblhau aseiniadau neu dderbyn asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, neu i ymgymryd â lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Nid yw SAUau yn ddigon rhagweithiol o ran datblygu cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn lle hynny maent yn rhoi gormod o gyfrifoldeb ar fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ddewis y trefniadau ychwanegol hyn. O ganlyniad, ychydig iawn o fyfyrwyr sy'n dewis y dewisiadau hyn.

## Pa mor hygyrch mae SAUau yn gwneud i gyrsiau cymwysterau gwaith ieuenctid fod?

62 Ledled Cymru mae ystod eang o lwybrau amser llawn a rhan-amser, lefel israddedig a gradd Meistr at gymhwyso gyda dewis rhwng dysgu o bell a dysgu sy’n seiliedig ar y campws a dysgu wedi’i ryddfreinio. Mae pob cyflogwr gwasanaethau ieuenctid yn galluogi aelodau o’u staff i ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer cymwysterau ar lefel broffesiynol. Mae bron pob gwasanaeth ieuenctid yn rhoi dewis i’w staff o gyrsiau cymwysterau o blith yr ystod o SAUau yng Nghymru.

63 Mae’r gofynion o ran profiad blaenorol o waith ieuenctid ar gyfer cael mynediad at y cyrsiau amrywiol yn debyg yn fras ledled y SAUau. Fodd bynnag, mae pob SAU yn dehongli ac yn cymhwyso’r gofyniad hwn yn wahanol. Er bod pob sefydliad yn argymell bod gan bob ymgeisydd rywfaint o brofiad o waith ieuenctid, a bod y rhai sydd heb brofiad yn ei gael cyn dechrau’r cwrs, nid yw pob SAU yn mynnu hyn.

64 Caiff tua 33% o’r myfyrwyr eu hariannu gan gyflogwyr gwasanaethau ieuenctid a chânt eu rhyddhau yn ystod yr wythnos waith i fynychu cyrsiau ac i ymgymryd ag astudio ar gyfer y cymhwyster proffesiynol. Fodd bynnag, mae’r amser a gaiff ei ddyrannu yn amrywio rhwng gwasanaethau ieuenctid ac yn anaml bydd yn cynrychioli’r holl amser sydd ei angen i fodloni anghenion dysgu ac astudio. Mae gan lawer o’r myfyrwyr hyn gontractau dros dro a rhai cyfnod penodol a chânt eu hariannu drwy grantiau sy’n gyfyngedig o ran amser, heb unrhyw warant o barhad cyflogaeth na chymorth ariannol ar gyfer eu cwrs. Mae gofynion astudio, cadw cyflogaeth â thâl ac ansicrwydd o ran ariannu wedi arwain at myfyrwyr yn ymadael mewn ambell achos.

65 Mae pob SAU sy’n cyflwyno cyrsiau ieuenctid a chymunedol yn darparu gwasanaethau cymorth sydd o ansawdd uchel ac yn gynhwysfawr. Mae’r gwasanaethau hyn wedi’u cydlynu’n dda, wedi’u cyflwyno’n dda a chânt eu deall, eu gwerthfawrogi a’u cyrchu’n dda gan y myfyrwyr. Cafodd darpariaeth dda ei sefydlu er mwyn rhoi cymorth i fyfyrwyr ynglŷn â nodi a mynd i’r afael â’u hanghenion o ran medrau astudio. Mae hyn yn cynnwys cymorth dwys a phriodol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion dysgu sylweddol.

66 Mae gwaith wedi cynyddu’n dda o fewn y SAUau i ddatblygu ac ymgorffori dulliau electronig o gyfathrebu, addysgu a dysgu. Mae’r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cydnabod buddion hyn ac yn defnyddio TGCh yn hyderus. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae trefniadau da ar waith i gefnogi defnydd y myfyrwyr o TGCh. Mae gan y myfyrwyr fynediad da at e-lyfrau ac ardaloedd dysgu rhithwir. Mae tiwtoriaid a myfyrwyr yn defnyddio TGCh yn dda i drafod materion allweddol a gwella perfformiad.

67 Mae pob SAU yn cynnig y cyfle i drosglwyddo credydau a gafodd eu hennill mewn sefydliadau eraill, cyhyd â’u bod yn gyfwerth â blynyddoedd llawn o astudio. Fodd bynnag nid yw llawer o bobl ym maes ieuenctid a chymunedol a myfyrwyr ar y cyrsiau hyn yn deall y rheolau sy’n rheoli cronni a throsglwyddo credydau’n glir.

## Atodiad Un

### Sail y dystiolaeth ar gyfer yr arolwg

Roedd cwmpas yr arolwg hwn yn ymwneud â'r cyrsiau a gaiff eu cydnabod gan y JNC sy'n arwain at y cymhwyster proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid a chymunedol ym Mhrifysgol Glyndŵr, Y Brifysgol Agored, Coleg Prifysgol y Drindod, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC), a Phrifysgol Cymru Casnewydd (UWN).

Yn ystod yr arolwg, cyfwelodd arolygwyr â staff o Gangen Gwasanaeth Ieuenctid Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r ETS. Cyfwelodd arolygwyr hefyd â phenaethiaid ysgolion, penaethiaid cyfadrannau, rheolwyr a thiwtoriaid cyrsiau, a myfyrwyr presennol ym mhob un o'r Sefydliadau Addysg Uwch. Cyfwelodd arolygwyr hefyd â phrif swyddogion ieuenctid, swyddogion hyfforddi, goruchwylwyr lleoliadau gwaith a myfyrwyr a gaiff eu cyflogi gan wasanaethau ieuenctid.

Archwiliodd arolygwyr ddogfennaeth helaeth a gafodd ei darparu gan bob gwasanaeth ieuenctid a chan bob SAU.

## Atodiad Dau

**Cyrsiau presennol sy’n cael eu cydnabod gan y JNC a’u cynnal yng Nghymru**

| **Sefydliad** | **Teitl y Cwrs** |
|---|---|
| Prifysgol Glyndŵr (a gafodd ei galw’n flaenorol yn Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru Wrecsam (NEWI)) | Diploma Addysg Uwch mewn Astudiaethau Ieuenctid |
| | BA mewn Astudiaethau Ieuenctid a Chymunedol |
| | Diploma Ôl-raddedig mewn Astudiaethau Ieuenctid sy’n arwain at radd Meistr mewn Astudiaethau Ieuenctid a Chymunedol |
| Y Brifysgol Agored | Gradd sylfaen mewn Gweithio gyda Phobl Ifanc |
| Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin | BA mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol |
| | Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol sy’n arwain at radd Meistr mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol |
| Athrofa Prifysgol Caerdydd, Caerdydd (UWIC) | Diploma Addysg Uwch (DipHE) mewn Addysg Gymunedol – Presenoldeb Rhan amser |
| | BA mewn Addysg Gymunedol – Presenoldeb Amser Llawn |
| | Diploma Ôl-raddedig mewn Galwedigaethau Cymunedol (Gwaith Ieuenctid a Chymunedol) sy’n arwain at radd Meistr yn y Galwedigaethau Cymunedol |
| Prifysgol Cymru Casnewydd (UWN) | Gradd anrhydedd BA mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol |

## Awdur yr adroddiad a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Gerard E Kerslake AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Penny Lewis AEM | Arolygydd Tîm |
| Angharad Reed AEM | Arolygydd Tîm |
| Russell Grigg AY ar Secondiad | Arolygydd Tîm |
| Steve Drowley AY | Arolygydd Tîm |
| Jim Humphreys AY | Arolygydd Tîm |
| Lin Howells Cyfarwyddwr Cynorthwyol | Arolygydd Tîm |
| Enid Hankins AEM | Arolygydd Tîm |